Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i awdurdodau amlosgiadau a rheolwyr amlosgfeydd

**Mawrth 2022**

# Cynnwys

Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 3

Amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw 4

Y ffurflenni 5

Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi gweddillion person ymadawedig (yn amnewid am ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009) 6

Ffurflen Amlosgi 2 – Cais i amlosgi rhannau o gorff (wedi disodli ffurflen Amlosgi 2 a gyhoeddwyd yn 2009) 9

Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (yn amnewid am ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009) 10

Ffurflen Amlosgi 4 - Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B) 11

Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E) 12

Ffurflen Amlosgi 7 – Tystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol (wedi disodli ffurflen H) 13

Ffurflen Amlosgi 8 – Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o'r corff ar gyfer amlosgi (wedi disodli ffurflen DD) 14

Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif o farw-enedigaeth 15

Ffurflen Amlosgi 10 – Awdurdodi amlosgi person ymadawedig gan ganolwr meddygol (wedi disodli ffurflen F) 16

Ffurflen Amlosgi 12 – Awdurdodi amlosgi rhannau o gorff gan ganolwr meddygol (wedi disodli ffurflen FF) 17

Ffurflen Amlosgi 13 - Awdurdodi amlosgi gweddillion baban marw-anedig gan ganolwr meddygol 18

Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem 19

Rhagor o Wybodaeth 20

Atodiad A 21

Atodiad B – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol 22

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

1. Daeth Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Fe wnaethon nhw foderneiddio a chyfuno'r holl reoliadau blaenorol, gan ddisodli Rheoliadau Amlosgi 1930 (fel y'u diwygiwyd). Cafodd Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 eu diwygio yn 2016, 2017 ac eto yn 2022. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni oddi ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance. Mae pob cyfeiriad at Reoliadau yn y canllawiau hyn yn gyfeiriad at Reoliadau 2008.

2. Ni ellir defnyddio'r ffurflenni blaenorol. Dim ond y ffurflenni cais hynny a gyflwynwyd drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 y gellir eu defnyddio i wneud cais am amlosgi ar 6 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

3. Mae Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2017 yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni a/neu'r fersiynau dwyieithog a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg a fydd â'r un statws â'r ffurflenni a wneir ac a gymeradwyir gan y Senedd.

4. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu safonau ymddygiad mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff penodol i gydymffurfio â'r safonau hynny. Dylai amlosgfeydd a leolir yng Nghymru dderbyn ffurflenni amlosgi a lenwir yn Gymraeg.

5. Dylai pob rheolwr amlosgfa fod yn gyfarwydd â thestun y Rheoliadau. Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r hawl i ymgeiswyr archwilio tystysgrif feddygol Amlosgi 4 cyn i'r canolwr meddygol awdurdodi'r amlosgi. Cafodd hyn ei gyflwyno pan ddaeth y Rheoliadau hyn i rym yn wreiddiol ac nid yw'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau yn eu ffurf ddiwygiedig yn effeithio arnynt o hyd.

6. Ers cyflwyno'r rheoliadau hyn, mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi arfer yr hawl hon wedi bod yn gymharol isel; fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan deuluoedd hawl i arfer yr hawl hon, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Pan fydd archwiliad post-mortem yn cael ei gomisiynu gan y canolwr meddygol, rydym o'r farn y dylai'r ymgeisydd hefyd, ar gais, allu archwilio'r adroddiad ar yr archwiliad post-mortem. Fodd bynnag, nid oes hawl i archwilio unrhyw ddogfennau meddygol lle mae'r achos wedi'i gyfeirio at y crwner ac maent wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6.

7. Mae'r ffurflenni'n ei gwneud yn glir ei bod yn drosedd dan Ddeddf Amlosgi 1902 i wneud datganiad ffug yn fwriadol er mwyn cael amlosgiad. Os ydych chi'n ymwybodol bod ymgeisydd neu unrhyw un arall wedi gwneud datganiad ffug neu dwyllodrus, dylech ystyried rhoi gwybod i'r heddlu am y mater. Noder na all y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymchwilio i faterion troseddol.

# Amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw

8. Nid yw gweddillion ffetysau o dan gyfnod beichiogrwydd o 24 wythnos yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheoliadau. Mae rhagor o wybodaeth am waredu gweddillion o'r fath yn cael ei chyhoeddi gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (www.hta.gov.uk) a'r Gymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion (www.sands.org.uk). Gweler hefyd *Sands Pregnancy Loss and Death of Baby – Guidelines for Professionals* Penodau 16, 17 a 20 (mae copïau ar gael yn http://portal.uk-sands.org/public/shop/default.aspx#Health Professionals).

# Y ffurflenni

9. Mae'n bwysig eich bod yn glynu'n llawn wrth eiriad statudol y ffurflenni. Yr unig addasiadau y gallwch eu gwneud yw ychwanegu enw a chyfeiriad yr amlosgfa ynghyd â manylion cyswllt. Ni ddylech ychwanegu nodiadau nac esboniadau ar yr ymylon gan fod y ffurflenni hyn wedi cael eu gwneud a'u cymeradwyo gan y Senedd ac ni ellir eu diwygio na'u newid heb ddiwygio drwy offeryn statudol. Cyfarwyddir canolwyr meddygol i wrthod ffurflenni nad ydynt yn dilyn y geiriad statudol.

10. Gellir derbyn ffurflenni'n electronig neu fel dogfennau papur. Pan fo ffurflen yn gofyn am lofnod a'i bod yn cael ei derbyn yn electronig, rhaid i'r llofnod gydymffurfio â'r gofynion yn adran 7(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000.

11. Dylech dderbyn trosglwyddiad electronig o ffurflen bapur wedi'i llofnodi sydd wedi'i derbyn fel ffacs neu fel atodiad e-bost o sgan neu lun. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y ffurflen electronig a dderbyniwyd, dylid codi'r rhain gyda'r sawl a anfonodd y ddogfen. Nid oes yn rhaid i'r amlosgfa dderbyn y ffurflen bapur wedi'i llofnodi pan fydd trosglwyddiad electronig y ffurflen honno wedi'i dderbyn.

12. Pan fydd ffurflen wedi cael ei chreu'n electronig, naill ai ar ddyfais bersonol fel gliniadur, tabled neu ffôn clyfar, neu drwy borth gwe, dylech fodloni eich hun bod llofnod electronig y ddogfen honno'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

13. Lle nad oes llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw wedi'i roi yn y lle gwag yn y ffurflen sydd wedi'i chadw ar gyfer y llofnod, dylid teipio enw'r llofnodwr ble mae'r ffurflen yn caniatáu hynny. Dyma enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn llofnod electronig:
    - Trawsyriad o gyfrif e-bost sy'n perthyn i'r llofnodwr
    - Copi wedi'i sganio o lofnod y llofnodwr wedi'i roi yn adran llofnod y ffurflen
    - Llofnod y llofnodwr wedi ei osod yn uniongyrchol ar y ffurflen drwy sgrin gyffwrdd
    - Defnyddio gwasanaeth dilysu llofnodion electronig.

14. Ceir 12 ffurflen, a esbonnir isod.

15. Mae'r gofyniad am dystysgrif feddygol gadarnhau (ffurflen Amlosgi 5) wedi cael ei ddileu'n barhaol.

# Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi gweddillion person ymadawedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009)

16. Dylai rheolwyr amlosgfeydd sicrhau bod pob rhan o'r ffurflen wedi'i llenwi cyn i'r ffurflen gael ei throsglwyddo i'ch canolwr meddygol. Fodd bynnag, ni ddylid gwrthod ffurflen dim ond oherwydd, er enghraifft, nad yw'r ymgeisydd yn gwybod cod post y man lle bu farw neu ymarferydd meddygol yr ymadawedig. Rydym wedi annog trefnwyr angladdau i gynorthwyo ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth o'r fath.

17. Mae Cwestiwn 10 yn gofyn am fewnblaniadau peryglus. Bydd angen i'r canolwr meddygol wirio'r wybodaeth a ddarperir yn ofalus a'i chymharu â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymarferydd meddygol sy'n ardystio. Efallai y bydd y trefnydd angladdau hefyd yn gallu darparu gwybodaeth neu gadarnhau bod y mewnblaniad wedi cael ei dynnu. Ceir rhestr o fewnblaniadau a allai fod yn beryglus yn Atodiad B.

18. Mae Rhan 5 y ffurflen yn delio â hawl yr ymgeisydd i archwilio'r dystysgrif feddygol, ffurflen Amlosgi 4, cyn i'r canolwr meddygol awdurdodi'r amlosgi. Rydym yn disgwyl i drefnwyr angladdau roi gwybod i'r ymgeisydd am yr hawl mewn termau niwtral ac nid ydym yn annog nac yn rhwystro ymgeiswyr rhag ymarfer yr hawl (mae'r canllawiau i drefnwyr angladdau yn cynnwys geiriad a awgrymir). Yn amlwg, os oes angen cyfeirio'r farwolaeth at y crwner ar ôl llenwi ffurflen Amlosgi 1, a bod archwiliad post-mortem yn cael ei gynnal a/neu fod cwest yn cael ei agor, ni fydd yr hawl i gael archwiliad yn berthnasol mwyach gan na fydd ffurflen Amlosgi 4 i'w harchwilio.

19. Er mwyn osgoi unrhyw oedi i'r angladd gan yr ymgeisydd sy'n archwilio'r ffurflen, dylech annog trefnwyr angladdau ac ymarferwyr meddygol i sicrhau bod ffurflenni Amlosgi 1 ac Amlosgi 4 yn cael eu derbyn cyn gynted â phosibl cyn dyddiad yr angladd. Caiff yr ymgeisydd ddirprwyo archwiliad i enwebai neu gael rhywun gydag ef/hi. Dylech wneud pob ymdrech i sicrhau y gall yr ymgeisydd a/neu ei enwebai archwilio'r ffurflen yn breifat er ein bod yn sylweddoli nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i le addas.

20. Ni ddylid codi ffi ar yr ymgeisydd i archwilio'r ffurflenni. Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd am gael esboniad meddygol am achos y farwolaeth, dylid eu hysbysu y gall y canolwr meddygol godi ffi am wneud hyn (er mai mater i'r canolwr meddygol yw hynny). Ar y llaw arall, os yw'r ymgeisydd yn dymuno tynnu sylw'r canolwr meddygol at

anghysondeb neu anghywirdeb (honedig) yn y dystysgrif feddygol, ni ddylid codi tâl am wneud hynny. Rhaid i achosion lle nad yw achos y farwolaeth yn cael ei ystyried yn naturiol gan y canolwr meddygol gael eu cyfeirio at y crwner lleol i'w hystyried ymhellach.

21. Dylai'r archwiliad ddigwydd o leiaf 24 awr cyn y bydd yr angladd yn cael ei gynnal, er mwyn i'r canolwr meddygol neu eraill allu cynnal unrhyw ymchwiliad neu eglurhad pellach. Efallai y bydd y teulu yn dymuno i'r angladd fynd rhagddo ond bod yr amlosgi yn cael ei ohirio, rhag ofn y bydd y crwner yn dymuno i'r corff gael ei archwilio. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r corff gael ei ddychwelyd i'r trefnydd angladdau tra bydd y crwner yn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Bydd achosion o'r fath yn brin iawn.

22. Ers i'r rheoliadau hyn ddod i rym, ni fu galw mawr am archwiliadau. Mae rheoliad 32 yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestrydd pob awdurdod amlosgiadau gadw cofrestr o fanylion amlosgiadau, gan gynnwys enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n arfer yr hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol. Gan ein bod yn parhau i adolygu gweithrediad yr hawl i archwilio, byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech hefyd yn anfon manylion yr achosion lle mae'r ffurflenni wedi cael eu harchwilio i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

23. Mae Rhan 6 y ffurflen yn ymdrin â dymuniadau'r ymgeiswyr am yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl yr amlosgi. Dylech fod yn fodlon eich bod yn gallu cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau fel y'u hysgrifennwyd, a dylech fod â systemau ar waith i alluogi ymgeiswyr i gael gafael ar fanylion yr holl gyfleusterau ac opsiynau a ddarperir gennych. Rydym yn disgwyl y bydd gan drefnwyr angladdau hefyd ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaethau yr ydych yn eu darparu a'r cyfleusterau y mae gennych fynediad atynt a byddwn yn cynghori ymgeiswyr am amlosgi yn unol â hynny. Dylech ddarparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall, ar gais, i drefnwyr angladdau ynghylch y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gennych.

24. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon na ellir cyflawni'r cyfarwyddiadau neu os nad ydych yn siŵr beth y gofynnwyd amdano, dylech godi'r mater gyda'r ymgeisydd neu ei asiant cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ni ddylech dderbyn cais am amlosgi os ydych yn credu na fyddwch yn gallu cyflawni'r cyfarwyddiadau ynghylch beth fydd yn digwydd i'r llwch.

25. Gall yr ymgeisydd newid cyfarwyddiadau ynghylch beth fydd yn digwydd i'r llwch yn ysgrifenedig heb orfod llenwi ffurflen gais newydd.

26. Mae'n bwysig bod gennych systemau ar waith ar gyfer cofnodi unrhyw newid ym manylion cyswllt yr ymgeisydd hyd nes y bydd yr ymgeisydd neu ei asiant wedi casglu'r llwch, neu os yw'r llwch wedi'i waredu yn unol â chyfarwyddiadau'r ymgeisydd.

27. Os na fydd yr ymgeisydd neu ei asiant yn casglu'r llwch neu os nad yw'r ymgeisydd yn rhoi cyfarwyddiadau o fewn yr amserlenni a bennwyd, dylech wneud ymdrechion rhesymol i drefnu gyda'r ymgeisydd neu ei asiant ar gyfer casglu neu waredu'r llwch.

28. Os nad ydych, er gwaethaf eich ymdrechion rhesymol, yn gallu gwneud trefniadau gyda'r ymgeisydd i ddychwelyd neu waredu'r llwch, dylech gladdu'r llwch mewn mynwent neu ran o'r amlosgfa a gedwir ar gyfer claddu llwch neu dylech wasgaru'r llwch mewn rhan o'r amlosgfa a gedwir at y diben hwnnw. Fodd bynnag, cyn gweithredu fel hyn, dylech roi 14 diwrnod o rybudd o'ch bwriadau i'r ymgeisydd. Rydym wedi awgrymu geiriad ar gyfer hysbysiad o'r fath yn Atodiad A y canllawiau hyn.

29. Os bydd yr ymgeisydd yn rhoi cyfarwyddiadau rhesymol i chi ar gyfer dychwelyd neu waredu'r llwch ar unrhyw adeg cyn i chi gymryd y camau a hysbyswyd, dylech yn hytrach gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny.

30. Gall fod adegau pan fydd rhywun nad yw'n ymgeisydd na'i asiant yn cysylltu â chi gyda chais i ddychwelyd neu waredu'r llwch mewn ffyrdd sy'n groes i gyfarwyddiadau'r ymgeisydd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylech ystyried dychwelyd neu waredu'r llwch yn groes i gyfarwyddyd yr ymgeisydd, er enghraifft lle'r oedd yr ymgeisydd yn gyfrifol am farwolaeth y person a gafodd ei amlosgi neu yn achos amlosgi plentyn lle'r oedd yr ymgeisydd wedi cam-drin y plentyn neu ei riant/rhieni. Os bu farw'r ymgeisydd am amlosgi cyn rhoi unrhyw gyfarwyddiadau ynghylch beth ddylai ddigwydd i'r llwch, efallai y byddwch yn ystyried cymryd cyfarwyddiadau gan ysgutor neu weinyddwr eu hystâd.

31. Ni ddisgwylir y bydd yr opsiwn i arfer y disgresiwn hwn yn codi'n aml iawn gan y bydd achosion lle ceir amgylchiadau eithriadol yn brin iawn. Byddem yn argymell bod amlosgfeydd yn cymryd cyngor cyfreithiol cyn gweithredu mewn ffordd sy'n groes i gyfarwyddiadau'r ymgeisydd.

# Ffurflen Amlosgi 2 – Cais i amlosgi rhannau o gorff (wedi disodli ffurflen Amlosgi 2 a gyhoeddwyd yn 2009)

32. Nid oes hawl i archwilio'r dystysgrif gysylltiedig sy'n rhyddhau rhannau o'r corff ar gyfer amlosgi (ffurflen Amlosgi 8) gan nad yw'n darparu unrhyw wybodaeth am achos y farwolaeth ac, yn yr achosion hyn, fel arfer, bydd y corff eisoes wedi cael ei amlosgi neu ei gladdu.

33. Mae paragraffau 23-31 uchod yr un mor berthnasol i Ran 6 Ffurflen Amlosgi 2.

# Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009)

34. Dylech sicrhau bod ffurflen Amlosgi 3 naill ai’n cael ei hategu gan ffurflen Amlosgi 9 (tystysgrif marw-enedigaeth) neu gan ddatganiad a roddir gan berson sy’n gallu rhoi gwybodaeth am yr enedigaeth (gweler rheoliad 20(2)). Lle digwyddodd y farw-enedigaeth y tu allan i Gymru a Lloegr, gellir rhoi ffurflen sy’n cyfateb yn fras i ffurflen Amlosgi 9 (gweler Rheoliad 14(4)). Nid oes hawl i archwilio tystysgrif marw-enedigaeth gan na ellir cael achos marwolaeth ar gyfer babanod sy’n cael eu geni heb unrhyw arwyddion o fywyd sy'n annibynnol ar eu mam.

35. Mae paragraffau 23-31 uchod yr un mor berthnasol i Ran 6 Ffurflen Amlosgi 3.

# Ffurflen Amlosgi 4 - Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B)

36. Dylech sicrhau bod yr holl gwestiynau wedi cael eu hateb, gan gynnwys gyda 'Amh' fel sy'n briodol, cyn pasio'r ffurflenni i'r canolwr meddygol. Rhaid i bob ymarferydd meddygol fod wedi cofrestru a chael trwydded i ymarfer gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â chofrestriad dros dro neu gyfnodol). Gallwch weld y manylion ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn www.gmc-uk.org.

# Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E)

37. Ni ddylid gadael y gofod ar gyfer cofnodi achos y farwolaeth yn wag (hyd yn oed os nad yw'r achos wedi'i ganfod) a dylech sicrhau bod enw'r ymadawedig wedi'i gofnodi'n gywir, a bod y ffurflen wedi'i llofnodi a'i dyddio. Dylid dychwelyd unrhyw ffurflenni anghyflawn i swyddfa'r crwner i'w llenwi'n gywir.

# Ffurflen Amlosgi 7 – Tystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol (wedi disodli ffurflen H)

38. Mae'r ffurflen yn cyfeirio at drwyddedau a roddwyd dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 ond gellir ei haddasu i ddelio â gweddillion anatomegol hŷn lle bu oedi cyn gwaredu'r corff.

# Ffurflen Amlosgi 8 – Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o'r corff ar gyfer amlosgi (wedi disodli ffurflen DD)

39. Rhaid i'r rhannau o'r corff berthyn i berson a enwir a dylid ateb pob cwestiwn ar y ffurflen yn llawn. Am y rheswm hwn, ni ellir amlosgi deunydd dienw yn unol â'r rheoliadau, ac felly dylid ei losgi neu ei waredu mewn rhyw ffordd briodol arall.

# Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif o farw-enedigaeth

40. Dylid cysylltu'r ffurflen hon â ffurflen Amlosgi 3 a'r ddogfen gofrestru briodol. Os yw'r canolwr meddygol yn fodlon y gellir amlosgi, bydd ef neu hi yn ei awdurdodi gyda ffurflen Amlosgi 13. Gall bydwraig gofrestredig lenwi Ffurflen Amlosgi 9 yn ogystal ag ymarferydd meddygol cofrestredig.

# Ffurflen Amlosgi 10 – Awdurdodi amlosgi person ymadawedig gan ganolwr meddygol (wedi disodli ffurflen F)

41. Bydd y canolwr meddygol yn awdurdodi amlosgi person ymadawedig ar ôl iddo ef neu hi gael ei fodloni gan y wybodaeth ar y ffurflenni perthnasol (naill ai ffurflen Amlosgi 1, Amlosgi 4, Amlosgi 6 neu Amlosgi 7) yn ogystal â'r ddogfen gofrestru, os oes angen. (Sylwch nad oes angen y ddogfen gofrestru mewn achosion sy'n ymwneud â'r crwner.)

42. Os yw'r ymgeisydd neu enwebai'r ymgeisydd wedi gofyn am gael archwilio'r dystysgrif feddygol, efallai yr hoffech roi gwybod i'r canolwr meddygol. Fodd bynnag, os nad oes gan yr ymgeisydd neu'r enwebai unrhyw bryderon yr hoffai eu codi gyda'r canolwr meddygol, neu os nad ydynt yn dymuno ceisio cyngor pellach gan y canolwr meddygol, nid oes angen mawr i wneud hynny. Os yw'r ymgeisydd neu'r enwebai wedi egluro i staff yr amlosgfa eu bod yn dymuno codi materion sy'n peri pryder gyda chrwner, ni ddylai'r canolwr meddygol awdurdodi'r amlosgi hyd nes y bydd y materion hyn wedi'u datrys. Bydd angen i chi fod mewn cysylltiad agos â'r trefnwyr angladdau a swyddfa'r crwner tra bydd y sefyllfa'n dal heb ei datrys.

# Ffurflen Amlosgi 12 – Awdurdodi amlosgi rhannau o gorff gan ganolwr meddygol (wedi disodli ffurflen FF)

43. Ni fydd y canolwr meddygol ond yn awdurdodi amlosgi ar ôl ystyried ffurflen Amlosgi 2 a ffurflen Amlosgi 8 a'r dogfennau cofrestru priodol.

# Ffurflen Amlosgi 13 - Awdurdodi amlosgi gweddillion baban marw-anedig gan ganolwr meddygol

44. Ni fydd y canolwr meddygol ond yn awdurdodi amlosgi babi marw-anedig ar ôl ystyried ffurflen Amlosgi 3 a naill ai ffurflen Amlosgi 9 (neu'r ffurflen dramor gyfatebol) neu ddatganiad a roddir gan berson a all roi gwybodaeth am yr enedigaeth a'r ddogfen gofrestru briodol.

# Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem

45. Bydd angen i chi benderfynu a fyddwch chi neu'r teulu yn talu am unrhyw archwiliad post-mortem a orchmynnwyd gan y canolwr meddygol. Bydd angen i chi hefyd sicrhau bod holl ofynion perthnasol Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn cael eu bodloni. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys unrhyw ganiatâd angenrheidiol i'r post-mortem ddigwydd gan y person mwyaf priodol (gweler cod ymarfer Post Mortem yr Awdurdod Meinweoedd Dynol am arweiniad ar bwy sy'n gallu rhoi caniatâd) a all fod yn ymgeisydd neu'n aelod arall o'r teulu, a bod y man lle mae'r archwiliad post-mortem i'w gynnal yn cael ei drwyddedu o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 ar gyfer gweithdrefnau o'r fath.

# Rhagor o Wybodaeth

46. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn hollgynhwysol a bydd achosion unigryw yn codi pan fydd angen cymorth arnoch. Os oes angen unrhyw ganllawiau neu wybodaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon arnoch, cysylltwch â'r tîm Polisi Claddu ac Amlosgi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn coroners@justice.gov.uk

# Atodiad A

[Awgrym o eiriad hysbysiad o fwriad i gladdu llwch pan na roddwyd cyfarwyddiadau ar gyfer eu casglu. Neu nad ydynt wedi eu casglu yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd.]

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â Lludw y diweddar ________________________ sydd wedi eu cadw yn yr Amlosgfa ers dyddiad y Gwasanaeth Angladd a gynhaliwyd ar ____________________

Bryd hynny, fe wnaethoch chi gyfarwyddo'r Amlosgfa i ____________________________________________________________________________ ____________________________________________________________________________ ____________

Dan Reoliad 30 Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 rwyf drwy hyn yn rhoi rhybudd, oni bai fy mod yn derbyn eich cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r gwrthwyneb o fewn 14 diwrnod i'r llythyr hwn, y bydd y Llwch yn cael ei Wasgaru / Claddu ar dir yr Amlosgfa.

Disgwyliaf am eich ateb buan a byddaf yn falch o roi gwybod i chi am yr opsiynau sydd ar gael i chi. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd Angladdau __________________________________________________

Yn gywir,

# Atodiad B – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol

Rheolydd calon

Diffibrilwyr Diffibriliwr Cardiaidd (ICDs)

Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs) Recordyddion dolen mewnblanadwy

Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs)

Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol

Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol) Symbylwyr twf esgyrn

Siyntau hydroceffalws y gellir eu rhaglennu

Hoelion gosod

Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd

Mewnblaniadau ymbelydrol

Triniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i
coroners@justice.gov.uk